# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 23 Mehefin 2015** |
| Amser: | **08.30 – 08.42** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio Dadl Fer William Powell tan ddydd Mawrth 7 Gorffennaf.

Nododd y Rheolwyr Busnes bapur ar y trefniadau ar gyfer presenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, fel rhan o'r ddadl ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU (Araith y Frenhines).

Nododd y Pwyllgor Busnes na fyddai Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth.

Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r bleidlais ar ddadl Araith y Frenhines yn cael ei chynnal ar ddiwedd yr eitem ac y byddai'r bleidlais ar Ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn cael ei chynnal ar ddiwedd yr eitem honno.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Oherwydd Gwasanaeth Coffa Srebrenica, sy'n cael ei gynnal yn y Senedd ar y cyd rhwng y Dirprwy Lywydd a'r Prif Weinidog, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ail-drefnu'r ddadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad o ddydd Mercher 8 Gorffennaf i ddydd Mercher 15 Gorffennaf.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i ail-drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2015 -**

- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Hofrennydd heddlu Dyfed-Powys - pam mae'r X99 yn rhoi cymorth hanfodol i ddiogelwch cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (30 munud) - *gohiriwyd o 24 Mehefin*

**Dydd Mercher 8 Gorffennaf 2015 -**

- ~~Dadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud)~~ - *gohiriwyd tan 15 Gorffennaf*

- Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2015 -**

- Dadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud) – gohiriwyd o 8 Gorffennaf
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) at y Pwyllgor Cyllid am ystyriaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan cyfarfod yn y dyfodol, i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid.

**UNRHYW FATER ARALL**

Yn dilyn y newidiadau i Reol Sefydlog 22, atgoffodd y Llywydd yr Aelodau i gyflwyno enwebiadau i ethol aelodau wrth gefn ar gyfer pob Aelod o bob grŵp gwleidyddol ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.